

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Pant-Y-Rhedyn

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg







Mae Ysgol Pant-Y-Rhedyn yn amgylchedd dysgu gofalgar a chynhwysol. Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth ar y cyd a adlewyrchir trwy arwyddair yr ysgol, sef 'Trwy ymdrechu, byddaf yn llwyddo'. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gwersi, yn ystod amser chwarae a phan fyddant yn symud o gwmpas adeilad yr ysgol. Maent yn elwa ar ffocws cryf yr ysgol ar iechyd a lles. Maent yn llwyddo i ysbrydoli disgyblion i ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. O ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn datblygu medrau digidol, fel dysgu sut i ddefnyddio codio i redeg rhaglenni syml. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol, ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau llythrennedd mewn Saesneg yn dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, er bod y cyfleoedd a gânt i ysgrifennu'n annibynnol mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd yn aml yn rhy gyfyngedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddeall gwybodaeth sy'n cael ei rhannu â nhw yn Gymraeg, ond mae mwyafrif ohonynt yn amharod i ymateb yn Gymraeg. Yn gyffredinol, nid yw medrau Cymraeg disgyblion wrth siarad Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwersi difyr fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys. Yn yr enghreifftiau cryfaf, maent yn darparu gweithgareddau heriol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a chymhwyso eu medrau yn ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw tasgau'n ddigon heriol bob amser. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac asesu eu cynnydd mewn gwersi. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau rhoi cyfleoedd mwy gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwaith i ymateb i adborth ysgrifenedig, ond megis dechrau datblygu y mae hyn.

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda. Mae arweinwyr yn creu a chynnal diwylliant o waith tîm yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff yn cynllunio gyda'i gilydd ac yn myfyrio ar eu haddysgu a'u dysgu yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cyflwyno dulliau addysgu newydd tra'n cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr brosesau wedi'u gwreiddio'n dda ar gyfer hunanwerthuso gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

# Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau siarad Cymraeg

A2 Darparu lefel addas o her yn gyson ar gyfer disgyblion mewn gwersi

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith trwy ymateb i adborth

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pant-Y-Rhedyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 157 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 157 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 23% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 23.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 31.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/10/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022